united welsh

# Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth

## Crynodeb o gamau gweithredu 2025

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ymrwymiadau United Welsh ar gyfer 2025, wrth i ni weithio tuag at ein gweledigaeth i ddod yn sefydliad gwrth-hiliol.

Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth United Welsh i'w weld yma.

### 1. Cynrychiolaeth

- Byddwn yn parhau i gyflwyno'r prosiect Llwybr i'r Bwrdd gyda phartneriaid cymdeithasau tai i gefnogi pobl o amrywiaeth ethnig i rolau aelodau Bwrdd.
- Byddwn yn ceisio adborth gan aelodau'r Bwrdd sy'n ymuno â ni drwy'r Llwybr i'r Bwrdd, i wella'r broses recriwtio.
- Byddwn yn parhau i fonitro data recriwtio a chadw er mwyn nodi grwpiau a dangynrychiolir.
- Byddwn yn cynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth a thuedd anymwybodol mewn sesiynau sefydlu ar gyfer staff newydd ac aelodau'r Bwrdd.
- Bydd gofyn i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant gloywi gorfodol ar wrth-hiliaeth a thuedd anymwybodol.
- Byddwn yn archwilio sut y gellir defnyddio porth newydd y Bwrdd fel llwyfan hyfforddi, a fydd yn cynnwys hyfforddiant gloywi gwrth-hiliaeth.
- Byddwn yn parhau i adrodd ar ddata recriwtio, cadw a bwlch cyflog i'w drafod yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

- Byddwn yn cyhoeddi cyfathrebiadau newydd sy'n annog staff i rannu eu data amrywiaeth i wella adrodd a chynlluniau gweithredu dilynol. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i gyflawni nod tymor hwy o gyhoeddi adroddiad amrywiaeth staff blynyddol yn wirfoddol.
- Byddwn yn parhau i fonitro nifer y ceisiadau am swyddi gan bobl o leiafrifoedd ethnig a phenodiadau dilynol.
- Byddwn yn ystyried pa mor ymarferol yw hi i United Welsh fabwysiadu dull 'gweithredu cadarnhaol' o recriwtio a dyrchafu yn wirfoddol.
- Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar ein cynnydd ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn unol â'n Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol, mewn cyfarfodydd tîm Gweithredol chwarterol.
- Bydd y tîm Gweithredol ac arweinwyr eraill yn y busnes yn parhau i fynychu ein staff Fforwm EDI a byddant yn llysgenhadon ar gyfer ein gwaith gwrth-hiliaeth.

## 2. Darparu Gwasanaeth

- Byddwn yn penodi Dadansoddwr Ansawdd Data newydd. Un agwedd o'u rôl fydd datblygu'r prosiect data EDI.
- Byddwn yn creu storfa ddata EDI newydd yn Venue, ein platfform Microsoft Office 365, er mwyn hwyluso'r broses o gofnodi data, cyrchu data ac adrodd arno ar draws ein meysydd gwasanaeth. Bydd hyn yn cefnogi staff i gynnal AECau mwy trylwyr a gwelliannau i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Byddwn yn creu ac yn cyhoeddi polisi troseddau casineb newydd i gynyddu dealltwriaeth am gyfrifoldebau staff a pha gymorth sydd ar gael.
- Byddwn yn creu ac yn lansio cyfres newydd o wybodaeth i drigolion am sut i adrodd am achosion o droseddau casineb. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hyrwyddo o fewn ein sefydliad fel bod staff yn gwybod ble i gael gafael arni, a sut i'w darparu, i breswylwyr.
- Byddwn yn cadarnhau proses lywodraethu newydd ar gyfer cwblhau a rheoli AEC, a chodi ymwybyddiaeth o'r broses newydd gyda staff trwy ein sianeli cyfathrebu mewnol.
- Byddwn yn adolygu data rhestrau aros am dai gyda Chyngor Caerffili a Chyngor Caerdydd, gan nodi preswylwyr presennol o gefndir lleiafrifoedd ethnig sydd angen cymorth i aros yn eu cartref neu symud eiddo, a pham.

## 3. Cyfathrebu ac ymgysylltu

- Byddwn yn parhau i ddathlu aml-ddiwylliannedd a hyrwyddo ein hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol trwy gyflwyno gwasanaeth, astudiaethau achos, a chynnwys addysgol a hyfforddiant.
- Byddwn yn parhau i ddefnyddio delweddau a gwaith celf amrywiol ar draws cyfathrebiadau brand United Welsh ac yn ystyried anghenion pobl ethnig amrywiol yn ein gwaith ymgyrchu.
- Byddwn yn annog mwy o drigolion i ymuno â'n Grŵp Cyfathrebu Preswylwyr, grŵp sydd o fudd i'r ddwy ochr i gwsmeriaid gael hyfforddiant sgiliau cyfathrebu marchnata tra'n rhoi adborth am y cyfathrebiadau rydym yn eu darparu. Bydd pwysigrwydd aelodaeth amrywiol yn cael ei gynnwys yn ein negeseuon cyfathrebu.
- Bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol a'i gyhoeddi ar ein gwefan.
- Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eitem sefydlog ar agenda chwarterol y Tîm Gweithredol, a bydd cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth yn cael ei fonitro yn y fforwm hwn.
- Bydd y cynllun yn cael ei drafod gan ein Fforwm EDI a'i ail-hyrwyddo i staff yn flynyddol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi'r prosiect Get Into Housing gyda'n partneriaid cymdeithasau tai. Bydd hyn yn cynnwys darparu lleoliadau gwaith chwe mis â thâl i gleientiaid o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Byddwn yn parhau i dyfu ein cymuned cynnwys cwsmeriaid, gan annog aelodaeth amrywiol.
- Bydd ein Fforwm EDI yn parhau i nodi ac arwain cyfleoedd ar gyfer sgyrsiau staff am hil a chydraddoldeb hiliol, wedi'u hwyluso mewn mannau o ddiogelwch ac ymddiriedaeth.
- Byddwn yn pennu cwmpas ac yn cadarnhau cynllun gweithredu ar gyfer disodli meddalwedd ymgysylltu â chyflogeion dienw er mwyn cael adborth a gwella ein diwylliant a'n harferion.
- Byddwn yn hyrwyddo sut y gall staff adrodd am hiliaeth, y gefnogaeth sydd ar gael yn dilyn profiad hiliol, a beth i'w wneud os ydynt yn dyst i ymddygiad hiliol, ar y cyd â chyhoeddi polisi troseddau casineb newydd.